



Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Ysgol Ardal Newydd Caerhun a Threfriw

Mai 2018

GWAITH YN DOD YN EI FLAEN AR SAFLE YSGOL ARDAL NEWYDD CAERHUN A THREFRIW



Mae gwaith adeiladu'r ysgol ardal newydd yn dod yn ei flaen ac mae'n dechrau cymryd siâp. Mae K&C Construction wedi gwneud y gwaith blocio allanol a mewnol, gan gynnwys gosod y trawstiau dur yn Rhanbarth 1 (y llawr isaf a'r llawr cyntaf) a'r un gwaith bron a'i orffen yn Rhanbarth 2 (llawr isaf). Mae'r tywydd da diweddar wedi helpu gyda'r gwaith ac os bydd y tywydd yn parhau bydd yn helpu gyda gwaith y 4 wythnos nesaf. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys gosod cyplau'r to a chychwyn toi a phan fydd hyn wedi'i gyflawni bydd yr adeilad yn dal dŵr ac yn garreg filltir arall.

Oddi ar y safle, mae'r pennaeth newydd a'r corff llywodraethol dros dro yn symud yn eu blaen gyda strwythur staff yr ysgol newydd ynghyd â logo a'r wisg ysgol newydd. Bydd cyfarfod nesaf y corff llywodraethol dros dro yng Ngorffennaf pan fydd syniadau ynghylch enw'r ysgol yn cael eu trafod yn fanylach.



Er mwyn gweld lluniau misol o waith adeiladu'r ysgol ardal Caerhun a Threfriw newydd, gan gynnwys cylchlythyrau a dogfennau statudol, ewch i:

www.conwy.gov.uk/caerhunathrefriw